

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae pobl yn dod ar draws cynhyrchion a ddyluniwyd bob dydd: cadeiriau, adeiladau, meddyginiaethau, dyfeisiau, dillad, cerbydau, robotiaid a llawer mwy – edrychwch o'ch cwmpas. Mae dylunio peirianeg yn ganolog i'r broses o greu pob un. Mae dylunwyr a pheirianwyr yn aml yn gweithio'n agos mewn timau i drosi syniadau yn gynhyrchion defnyddiol ac angenrheidiol. Mae gwybodaeth am y broses ddylunio'n hanfodol ar gyfer peirianeg lwyddiannus. Drwy blociau astudio sy'n cwmpasu tri cham y broses o ddylunio cynnyrch, ynghyd â chymysgedd o astudiaeth academiaidd a gwaith ymarferol ar-lein, bydd y modiwl hwn yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r sgiliau, gwybodaeth ac arferion hanfodol o ran dylunio ym maes peirianeg.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd mewn pwnc sy'n berthnasol i ddylunio (megis peirianeg, dylunio cynnyrch, pensaernïaeth neu ddylunio graffeg) neu dystiolaeth o brofiad ymarferol sylweddol o bwnc sy'n berthnasol i beirianeg a dylunio
- profiad o addysgu dylunio mewn cyd-destun peirianeg
- y gallu i ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (megis adnoddau rhwydweithio cymdeithasol) i addysgu
- y gallu i helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau dylunio megis sgiliau arlunio, modelu, ymchwilio a meddwl yn greadigol
- y gallu i helpu myfyrwyr peirianeg i werthfawrogi prosesau dylunio a safbwyntiau dylunwyr, a'r angen i weithio'n fyfyrionol fel dylunydd neu gyda dylunwyr ar brosiectau peirianeg.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu dylunio peirianeg ar lefel israddedig.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl 30 cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:

Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.